

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A55  
(CYFFORDD 9 (CYFNEWIDFA TREBORTH) I  
GYFFORDD 11 (CYFNEWIDFA LLYS Y  
GWYNT), BANGOR, GWYNEDD)  
(GWAHARDDIADAU A CHYFYNGIAD  
TRAFFIG DROS DRO) 2024**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A55, neu gerllaw iddi, rhwng Cyffordd 9 (Cyfnewidfa Treborth) a Chyffordd 11 (Cyfnewidfa Llys y Gwynt), Gwynedd.

Effaith y Gorchymyn yw gwneud y canlynol dros dro:

- i. Cau'r darnau o gerbyttffordd tua'r gorllewin cefnffordd yr A55 a bennir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn. Bydd gwrthlif yn weithredol ar y gerbyttffordd tua'r dwyrain.
- ii. Gwahardd pob cerbyd rhag mynd ar y darnau o gefnffordd yr A55 a bennir yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn. Disgrifir y llwybrau eraill yn yr Atodlen honno.
- iii. Gwahardd beicwyr a cherddwyr rhag mynd ar y darnau o gefnffordd yr A55 a bennir yn Atodlenni 1 a 2 i'r Hysbysiad hwn.
- iv. Gwahardd cerbydau sy'n lletach na 3.2 metr rhag mynd ar y darn o gefnffordd yr A55 a bennir yn Atodlen 3 i'r Hysbysiad hwn. Cyfarwyddir unrhyw gerbydau o'r fath i barcio mewn cilfannau dynodedig a byddant yn cael eu hebrwng drwy'r safle gwaith.
- v. Gosod terfyn cyflymder o 40 mya ar y darn o gefnffordd yr A55 a bennir yn Atodlen 4 i'r Hysbysiad hwn.

Er mwyn amharu cyn lleied â phosibl, bydd y gwaith yn cael ei wneud mewn 2 gam. Bydd angen cau'r gerbyttffordd yn llawn er mwyn gosod a symud ymaith y system wrthlif.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 8 Mehefin 2024. Disgwylir y bydd y gwaharddiadau a'r cyfyngiad dros dro yn weithredol dros nos (19:00 o'r gloch – 05:00 o'r gloch) o 8 Mehefin 2024 hyd 12 Gorffennaf 2024, neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall.

**THE A55 TRUNK ROAD (JUNCTION 9  
(TREBORTH INTERCHANGE), TO JUNCTION  
11 (LLYS Y GWYNT INTERCHANGE),  
BANGOR, GWYNEDD) (TEMPORARY  
TRAFFIC PROHIBITIONS AND  
RESTRICTION) ORDER 2024**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A55 trunk road between Junction 9 (Treborth Interchange) and Junction 11 (Llys y Gwynt Interchange), Gwynedd.

The effect of the Order is to temporarily:

- i. Close the lengths of the westbound carriageway of the A55 trunk road specified in Schedule 1 to this Notice. Contraflow will operate in the eastbound carriageway.
- ii. Prohibit all vehicles from proceeding on the lengths of the A55 trunk road specified in Schedule 2 to this Notice. The alternative routes are described therein.
- iii. Prohibit cyclists and pedestrians from proceeding on the lengths of the A55 trunk road specified in Schedules 1 and 2 to this Notice.
- iv. Prohibit vehicles over 3.2 metres wide from proceeding on the length of the A55 trunk road specified in Schedule 3 to this Notice. Any such vehicles will be directed to park in designated lay-bys and will be escorted through the works site.
- v. Impose a 40 mph speed limit on the length of the A55 trunk road specified in Schedule 4 to this Notice.

To minimise disruption, the work will be undertaken in 2 phases. Total carriageway closures will be required to set up and remove the contraflow system.

The Order comes into force on 8 June 2024. The temporary prohibitions and restriction are expected to operate overnight (19:00 – 05:00 hours) from 8 June 2024 until 12 July 2024, or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to operate during the dates specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan [Llywodraeth Cymru](https://llyw.cymru/gorchymynion-ffyrdd) ar <https://llyw.cymru/gorchymynion-ffyrdd>.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**  
Trafnidiaeth  
Llywodraeth Cymru

#### **ATODLEN 1**

##### **Gwrthlif a gwahardd beicwyr a cherddwyr**

###### Cyfnod 1

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o'r pwynt croesi tua 500 metr i'r dwyrain o drosgont ddwyreiniol Cylchfan Llys y Gwynt Cyffordd 11 hyd at y pwynt croesi 200 metr i'r gorllewin o drosgont Cyffordd 9 Treborth.

###### Cyfnod 2

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o'r pwynt croesi 200 metr i'r gorllewin o drosgont Cyffordd 9 Treborth hyd at y pwynt croesi 300 metr i'r gorllewin o ganolbwynt tanbont Ffordd Caernarfon Cyffordd 10.

#### **ATODLEN 2**

##### **Gwahardd cerbydau, beicwyr a cherddwyr dros dro**

1. Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o danbont Ffordd Caernarfon wrth Gyffordd 10 hyd at Gyffordd 11 (Cyfnewidfa Llys y Gwynt).

###### Y llwybr arall

Dylai traffig sy'n teithio tua'r gorllewin sy'n dymuno teithio rhwng Cyffordd 11 a 10 adael yr A55 a dilyn yr A4244, y B4547 a'r A487: i'r gwrthwyneb ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r dwyrain o Gyffordd 10.

2. Y darn o'r ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 10 (Cyfnewidfa Ffordd Caernarfon).

3. Y darn o'r ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 11 (Cyfnewidfa Llys y Gwynt).

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at <https://gov.wales/road-orders>.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**  
Transport  
Welsh Government

#### **SCHEDULE 1**

##### **Contraflow and prohibition of cyclists and pedestrians**

###### Phase 1

The length of the trunk road that extends from the crossover point approximately 500 metres east of the eastern overbridge of the Junction 11 Llys y Gwynt Roundabout to the crossover point 200 metres west of the Junction 9 Treborth overbridge.

###### Phase 2

The length of the trunk road that extends from the crossover point 200 metres west of the Junction 9 Treborth overbridge to the crossover point 300 metres west of the centre-point of the Junction 10 Caernarfon Road underbridge.

#### **SCHEDULE 2**

##### **Temporary prohibition of vehicles, cyclists and pedestrians**

1. The length of the trunk road that extends from the Caernarfon Road underbridge at Junction 10 to Junction 11 (Llys y Gwynt Interchange).

###### Alternative route

Westbound traffic wishing to travel between Junction 11 and 10 should leave the A55 and follow the A4244, B4547 and A487: vice versa for eastbound traffic from Junction 10.

2. The length of the westbound exit slip road at Junction 10 (Caernarfon Road Interchange).

3. The length of the westbound entry slip road at Junction 11 (Llys y Gwynt Interchange).

### Llwybrau eraill ar gyfer ffyrdd ymuno ac ymadael tua'r gorllewin

Dylai traffig sy'n teithio tua'r gorllewin sy'n dymuno gadael yr A55 wrth Gyffordd 10 barhau hyd at Gyffordd 9 a dychwelyd tua'r dwyrain i ymadael wrth Gyffordd 10.

Dylai traffig sy'n teithio tua'r gorllewin sy'n dymuno ymuno â'r A55 wrth Gyffordd 11 ymuno â'r A55 tua'r dwyrain wrth Gyffordd 11, mynd i Gyffordd 12 (Tal-y-bont), ymadael a dychwelyd tua'r gorllewin.

4. Y darn o'r ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 10 (Cyfnewidfa Ffordd Caernarfon). (Ar gau i osod/symud ymaith gwrthlif yn unig).

5. Y darn o'r ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 11 (Cyfnewidfa Llys y Gwynt). (Ar gau i osod/symud ymaith gwrthlif yn unig).

### Llwybr arall ar gyfer ffyrdd ymuno ac ymadael tua'r dwyrain

Dylai traffig sy'n teithio tua'r dwyrain adael yr A55 a dilyn yr A487, y B4547 a'r A4244 i ailymuno â'r A55 wrth Gyffordd 11.

6. Y darnau o holl gilfannau'r gefnffordd rhwng Cyffordd 10 ac 11.

#### **ATODLEN 3**

##### **Gwahardd dros dro gerbydau sy'n lletach na 3.2 metr**

Y darn o gerbyttffordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 300 metr i'r gorllewin o danbont Ffordd Caernarfon Cyffordd 10 hyd at bwynt 500 metr i'r gorllewin o drosbont ddwyreiniol Cyffordd 11 Llys y Gwynt.

#### **ATODLEN 4**

##### **Terfyn cyflymder 40 mya dros dro**

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o Gyffordd 9 (Cyfnewidfa Treborth) hyd at Gyffordd 12 (Tal-y-bont).

### Alternative routes for westbound slip roads

Westbound traffic wishing to leave the A55 at Junction 10 should continue to Junction 9 and return eastbound to exit at Junction 10.

Westbound traffic wishing to join the A55 at Junction 11 should join the eastbound A55 at Junction 11, proceed to Junction 12 (Tal-y-bont), exit and return westbound.

4. The length of the eastbound entry slip road at Junction 10 (Caernarfon Road Interchange). (Only closed to set up/remove contraflow).

5. The length of the eastbound exit slip road at Junction 11 (Llys y Gwynt Interchange). (Only closed to set up/remove contraflow).

### Alternative route for eastbound slip roads

Eastbound traffic should leave the A55 and follow the A487, B4547 and A4244 to rejoin the A55 at Junction 11.

6. The lengths of all trunk road laybys located between Junctions 10 and 11.

#### **SCHEDULE 3**

##### **Temporary prohibition of vehicles over 3.2 metres**

The length of the eastbound carriageway of the trunk road that extends from a point 300 metres west of the Junction 10 Caernarfon Road underbridge to a point 500 metres west of the Junction 11 Llys y Gwynt east overbridge.

#### **SCHEDULE 4**

##### **Temporary 40 mph speed limit**

The length of the trunk road that extends from Junction 9 (Treborth Interchange) to Junction 12 (Tal-y-bont).